**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 22 AWST 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May; Mr Theodore Joloza a Mrs Julie James (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon) a Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 16:45

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes) a Miss Deb Jones (Swyddog Cymorth Busnes).

**Croeso**: Croesawodd y Cadeirydd Mrs Julie James, yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i'r cyfarfod, fel sylwedydd y broses arolygon.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Datganwyd buddiant gan y Cadeirydd yn ymwneud ag Eitem Agenda 11, adran 5 o "Cynigion Drafft Ceredigion", gan ystyried ei fod yn byw yn Nhref Aberystwyth.

1.2. Datganodd Mr David Powell fuddiant, fel aelod o Gymdeithas Rhandiroedd Llwynbedw a'r Eglwys Newydd, Caerdydd, mewn perthynas ag arolygon yn y dyfodol yn ymwneud â Dinas a Sir Caerdydd.

1.3. **Nodwyd** y Datganiadau gan y Comisiwn.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2017

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 09 Awst 2017 gan y Prif Weithredwr ar Materion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 2) Staffio:** Mae'r swydd secondiad Swyddog Arolygon wedi'i hail-hysbysebu gyda'r dyddiad cau ar 13 Medi 2017.

- **(Mater 4) Safonau'r Gymraeg:** Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei Gynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg ac mae'r holl gamau gweithredu sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfio â'r Safonau ar waith bellach. Mae'r Safonau i'w dosbarthu i'r Comisiynwyr a staff yr Ysgrifenyddiaeth.

- **(Mater 6) Strategaeth TG:** Mae'r Comisiwn yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Achos Busnes ar gyfer darpariaeth TG. Mae'r Comisiwn wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y gall y Comisiwn, fel eithriad, gadw'r defnydd o'i gyfleuster gyriant/H: hyd nes y gellir rhoi trefniadau eraill ar waith.

- **(Mater 7) Cyfarfod Rhwng-Comisiynau 2017:** Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod yr Athro Richard Wyn Jones o Brifysgol Caerdydd wedi cytuno i roi cyflwyniad i'r cyfarfod.

- **(Mater 8) Adeilad:** Roedd proses trosglwyddo'r brydles yn dal i fynd rhagddi, gyda'r Comisiwn yn penodi cyfreithwyr ynghyd â Llywodraeth Cymru i'w datrys. **Cytunwyd** bod y Prif Weithredwr yn gwneud ymholiadau o ran y cynnydd.

- **(Mater 10) Penodiadau Cyhoeddus:** Hysbyswyd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus o gytundeb y Comisiwn i gymryd rhan yng nghynllun cysgodi'r bwrdd ar 3 Awst 2017.

- **(Mater Newydd) Papur Gwyn Bil yr Iaith Gymraeg: Nododd** y Comisiwn y papur gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 9 Awst 2017. Mae papur yn ystyried ymateb y Comisiwn i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Medi.

## 5. Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig Gorffennaf 2017 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn y materion sydd i'w cynnwys yn ymateb y Comisiwn i'r ymgynghoriad sydd i'w ddrafftio gan y Prif Weithredwr i'w ystyried yng nghyfarfod mis Medi.

## 6. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 10 Awst 2017 gan y Rheolwr Cyllid a amlinellodd y materion y deliwyd â nhw gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, a Chofnodion y cyfarfod.

6.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. **Nododd** y Comisiwn fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwilio diamwys ar gyfrifon blynyddol y Comisiwn a gafodd eu llofnodi yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## 7. Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 10 Awst 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. **Cytunodd** y Comisiwn i roi ymarferiad blynyddol gwerthuso'r bwrdd ar waith fel yr awgrymwyd yn yr archwiliad diweddar. Cytunwyd ar nifer o ddiwygiadau i holiadur gwerthuso'r bwrdd. **Cytunodd** y Comisiwn i gwblhau'r ymarferiad ym mis Tachwedd, a fyddai'n caniatáu amser i ystyried y canlyniadau yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 09 Awst 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** a **Chytunwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn yn amodol ar y diwygiadau canlynol –

- CR2 (Staff ar gyfer Gwaith Arolwg) – bydd yn cael ei ail-werthuso yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Medi.
- CR7 (Prydles yr Adeilad) – Ehangu ar y camau lliniaru gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â throsglwyddo'r brydles.

## 9. Adroddiad ar y Gyllideb

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 09 Awst 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Cytunodd** y Comisiwn i'r hawl trosglwyddo arian a gynigiwyd gan y Rheolwr Cyllid.

9.3. **Nodwyd** a **Chytunwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 10. Adroddiad Blynyddol Drafft 2016-17

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 09 Awst 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn i'r Adroddiad Blynyddol yn amodol ar ddrafftio rhagair gan y Cadeirydd.

10.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ddisodli'r cyfrifon cryno yn Adroddiad Blynyddol 2016-17 gyda set lawn o gyfrifon.

10.4. Nodwyd y sefyllfa gan y Comisiwn o ran yr arfer hanesyddol o gyhoeddi adroddiad blynyddol gwahanol i hynny a gynhwysir gyda'r cyfrifon blynyddol. **Cytunodd** y Comisiwn, ar gyfer y blynyddoedd yn y dyfodol, mai dim ond un adroddiad blynyddol fyddai'n cael ei gyhoeddi, sef y fersiwn a fyddai'n cyd-fynd â'r cyfrifon blynyddol.

## 11. Cynigion Drafft Ceredigion

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 11 Awst 2017 gan y Swyddog Arolygon. Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod ar y pwynt hwn, tra bod penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â materion yn ymwneud ag Aberystwyth.

11.2. Cytunodd y Comisiwn i Opsiwn 3 argymelledig ar gyfer ardal Aberystwyth sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Aberystwyth Canol; Aberystwyth Gogledd; Aberystwyth Penparcau; Aberystwyth Rheidol; Bronglais a Llanbadarn Fawr; a Faenor.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad;

- Mae'n darparu gwell cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal, tra'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd

- Mae’n creu un ward aml-aelod yn ychwanegol at y rheiny sy’n bodoli ar hyn o bryd, ystyriwyd bod hyn yn briodol oherwydd natur drefol yr ardal.
- Mae’n mynd i’r afael yn y modd gorau â lefelau presennol amrywiant etholiadol yn yr ardal, ac yn cydymffurfio’n fanwl â’r gynrychiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a’r gynrychiolaeth a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Sir ar gyfer Faenor.

11.3. Cytunodd y Comisiwn i Opsiwn 4 argymelledig ar gyfer ardal Aberteifi sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Aberporth ac Y Ferwig; Beulah a Llangoedmor; Aberteifi; a Phenbryn.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n mynd i’r afael yn y modd gorau â lefelau presennol amrywiant yn yr ardal, tra’n cadw cymunedau yn gyfan.
- Ceir cysylltiadau cyfathrebu priodol ac ymarferol ym mhob un o’r wardiau arfaethedig.
- Mae’r opsiwn hwn yn cadw cymunedau gwledig a threfol mewn wardiau etholiadol ar wahân, sy’n well gan y Comisiwn a hefyd yn unol â chynrychiolaethau a dderbyniwyd yn gofyn am i hyn gael ei ystyried.

11.4. Cytunodd y Comisiwn i Opsiwn 4 argymelledig ar gyfer ardal Lledrod sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Llangybi a Llanddewi Brefi; Lledrod; Melindwr; a Thregaron gyda Llangeitho.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Yr opsiwn hwn sy’n mynd i’r afael orau â’r lefel amrywiant yn yr ardal, nid yw’r un o’r wardiau yn parhau’n uwch na +/-25% i’r cyfartaledd sirol.
- Mae’n rhoi ystyriaeth i gyfran fawr o’r cynrychiolaethau a dderbyniwyd, gan gynnwys cynrychiolaethau a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Lledrod.
- Mae’n lleihau nifer y cynghorwyr ar gyfer yr ardal, i ddod â’r nifer o fewn nod y Comisiwn o ran maint cynghorau.

11.5. Cytunodd y Comisiwn i Opsiwn 2 argymelledig ar gyfer ardal Cei Newydd sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Llandysilio-gogo a Llangrannog; Gogledd Llandysul a Throedyraur; De Llandysul; a Chei Newydd gyda Llanllwchaearn.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad;

- Mae darparu gwelliant sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol tra'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd
- Nid oes unrhyw wardiau aml-aelod yn cael eu creu
- Cysylltiadau cyfathrebu priodol rhwng y wardiau etholiadol arfaethedig

11.6. Cytunodd y Comisiwn i Opsiwn 3 argymelledig ar gyfer ardal 'Meingefn Ceredigion' sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Aberaeron; Borth; Ceulan-y-maes-mawr; Ciliau Aeron; Llanbedr Pont Steffan; Llanarth; Llandyfrïog; Llanfarian; Llanfihangel Ystrad; Llanrhystud; Llansantffraid; Llanwenog; Tirymynach; Trefeurig ac Ystwyth.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad;

- Mae'n darparu gwelliant sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol, ac nid yw'r un o'r wardiau arfaethedig yn uwch na +/-25% i'r cyfartaledd sirol
- Mae'n cadw canran fawr o'r trefniadau presennol
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau aml-aelod
- Mae'n cymryd gymaint o argymhellion ar gyfer cynrychiolaeth y Cyngor Sir ag y bo modd, lle bo'n briodol.
- Mae'n derbyn argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth yn hytrach na'r cynnig gan y Cyngor Sir ar gyfer cymuned Llanfihangel Ystrad, a chan hynny yn osgoi creu cymuned ranedig mewn ardal sydd eisoes â lefelau priodol o ran cydraddoldeb etholiadol.

11.7. **Nododd** y Comisiwn bod yr opsiynau uchod a gytunwyd yn arwain at ostyngiad o 4 yn nifer y cynghorwyr, o 42 i 38.

11.8. **Cytunodd** y Comisiwn y rhestr enwau ar gyfer y Wardiau Etholiadol arfaethedig, a'i fod i'w hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

## 12. Cynigion Drafft Gwynedd

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Awst 2017 gan y Swyddog Arolygon.

12.2. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 5 argymelledig ar gyfer ardal Arfon sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Arllechwedd; Bethel ac Y Felinheli; Bethesda; Cwm y Glo; Deiniolen; Llanberis; Llanrug; Penisarwaun; Tregarth a Mynydd Llandygai.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, tra’n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd
- Mae’n creu 2 ward aml-aelod ym Methesda a Bethel ac Y Felinheli a ystyriwyd yn briodol oherwydd natur drefol y cymunedau.
- Mae’n creu tair cymuned ranedig, un i adlewyrchu natur drefol a gwledig Pentir, a’r llall o gynllun arfaethedig y Cyngor (Llanddeiniolen) yn ychwanegol at gymuned ranedig bresennol Llandygai.
- Derbyniwyd lefel uwch o amrywiant ar gyfer Tregarth a Mynydd Llandygai (34.63%) oherwydd y dopograffeg a’r diffyg cysylltiadau cyfathrebu ag ardaloedd eraill.

12.3. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 2 argymelledig ar gyfer ardal Bangor sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Dewi; Garth a Menai (Bangor); Glyder; Hendre (Bangor); Hirael; a Marchog.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal
- Nid yw’n creu unrhyw wardiau aml-aelod, ac yn diddymu’r ddwy ward aml-aelod sy’n bodoli’n barod
- Derbyn y newid arfaethedig i’r ffin a awgrymwyd gan y Cyngor newidiadau arfaethedig dilynol yr Ysgrifenyddiaeth i Gyngor Dinas Bangor am ei fod yn gwella cydraddoldeb etholiadol yr ardal a’r Cyngor Dinas ei hun.

12.4. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 1 argymelledig ar gyfer ardal Caernarfon sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Cadnant; Canol Tref Caernarfon; Hendre (Caernarfon); Menai (Caernarfon) a Pheblig.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal
- Nid yw’n creu unrhyw wardiau aml-aelod, ac yn diddymu’r un ward aml-aelod sy’n bodoli’n barod
- Nid yw’n creu unrhyw raniadau cymunedol
- Derbyn y newidiadau arfaethedig i’r ffin a awgrymwyd gan y Cyngor a newidiadau arfaethedig dilynol yr Ysgrifenyddiaeth i Gyngor Tref (Brenhinol) Caernarfon am ei fod yn gwella cydraddoldeb etholiadol yr ardal a’r Cyngor Tref ei hun.

12.5. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 3 argymelledig ar gyfer ardal Clynnog - Llanllyfni sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Clynnog; Llanllyfni; Llanwnda; Nefyn; Penygroes; Tryfan; Waunfawr; Y Bontnewydd; Y Groeslon ac Yr Eifl.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, tra'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd.
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau aml-aelod.
- Er ei fod yn creu cynnydd mewn rhaniadau cymunedol yn yr ardal, mae'n cydnabod ystod y cysylltiadau cyfathrebu ar draws yr ardal.

12.6. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 1 argymelledig ar gyfer ardal Ffestiniog sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Bowydd a'r Rhiw; Diffwys a Maenofferen; a Theigl.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau aml-aelod.
- Derbyn diwygiad yr Ysgrifenyddiaeth i'r newid i'r ffin a awgrymwyd gan y Cyngor gan ei fod yn ffin sydd yn haws ei hadnabod. Cytunwyd hefyd i dderbyn y trefniadau ôl-ddilynol i Gyngor Tref Ffestiniog fel yr awgrymwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth.

12.7. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 4 argymelledig ar gyfer ardal Meirionnydd sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Aberdyfi; Arthog a Llangelynnin; Bro Dysynni; Corris a Mawddwy; Dolgellau; Gorllewin Tywyn a Morfa Tywyn.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, tra'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd.
- Mae'n defnyddio rhan fawr o gynllun arfaethedig y Cyngor.
- Mae'n creu rhaniad cymunedol yn Nhywyn, ond roedd y Comisiwn o'r farn ei fod ar raniad gwledig/trefol a'i fod yn briodol o ran darparu llywodraethu lleol effeithiol.
- Mae'n creu ward aml-aelod yn Nolgellau am fod y Comisiwn o'r farn ei bod yn cael ei chreu o ardal drefol sy'n briodol ar gyfer cynrychiolaeth aml-aelod.

12.8. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 3 argymelledig ar gyfer ardal Pen Llŷn sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:-

Aberdaron; Abererch; Abersoch gyda Llanbedrog; Botwnnog a Llanengan; Criccieth; Efailnewydd a Buan; Llanystumdwy; Morfa Nefyn a Thudweiliog; Gogledd Pwllheli; a De Pwllheli.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, tra'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd.
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau aml-aelod.
- Er ei fod yn creu cynnydd mewn rhaniadau cymunedol yn yr ardal, mae'n cydnabod ystod y cysylltiadau cyfathrebu ar draws yr ardal.
- Derbyn argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth i wrthod y newid arfaethedig i'r ffin a awgrymwyd gan y Cyngor ar gyfer Cymuned Llanengan gan nad yw'n cyflawni llywodraeth effeithiol a chyfleus ar gyfer yr ardal.

12.9. **Cytunodd** y Comisiwn i Opsiwn 4 argymelledig ar gyfer ardal Penllyn-Porthmadog sy'n cynnwys y wardiau etholiadol arfaethedig y gefnogi'r penderfyniad:-

Abermaw; Brithdir, Llanfachreth, Ganllwyd a Llanelltud; Dolbenmaen; Dwyrain Porthmadog; Dyffryn Ardudwy; Gorllewin Porthmadog; Harlech a Llanbedr; Llandderfel; Llanuwchllyn; Penrhyndeudraeth; Porthmadog Tremadog; Trawsfynydd ac Y Bala.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella'r cydraddoldeb etholiadol cyffredinol yn yr ardal, tra'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau, gymaint ag y bo modd.
- Mae'n creu 1 ward aml-aelod yn Harlech a Llanbedr, a wnaeth y trefniant hwn yn briodol oherwydd y nodweddion trefol.
- Mae'n creu un rhaniad cymunedol (Llangywer) yn ychwanegol at gymunedau rhanedig presennol Dolbenmaen a Phorthmadog.
- Ar ôl ystyried cysylltiadau cyfathrebu a nodweddion gwledig Cymuned Llanfrothen, derbyniodd y Comisiwn gynnig yr Ysgrifenyddiaeth y dylid ei gyfuno â Chymuned Beddgelert, ward Prenteg yng Nghymuned Dolbenmaen a ward Tremadog yng Nghymuned Porthmadog mewn un ward un aelod. Nid oedd hyn yn gyson â'r farn a fynegwyd gan Gyngor Cymuned Llanfrothen. Fodd bynnag, mae'n cyflawni mwy o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer yr ardal hon.

12.10. **Nododd** y Comisiwn fod yr opsiynau uchod a gytunwyd yn arwain at ostyngiad o 6 yn nifer y cynghorwyr, o 75 i 69.

12.11. **Cytunodd** y Comisiwn y rhestr enwau ar gyfer y Wardiau Etholiadol arfaethedig, a'i fod i'w hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

## 13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 15 Awst 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. **Nododd** y Comisiwn y cynnydd yn y llwyth gwaith yn sgil nifer yr arolygon sy'n dod at ddiwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

13.3. **Cytunodd** y Comisiwn y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Arolygon ar gyfer Ceredigion a Gwynedd.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nodwyd** y calendr gan y Comisiwn.

## 15. Unrhyw Fusnes Arall

15.1. **Nododd** y Comisiwn ffioedd ymgynghori arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 18/19 a **Chytunodd** i ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi'r cynnig i beidio â chynyddu'r ffioedd.

15.2. **Cytunodd** y Comisiwn yr ymateb ffurfiol i'r cais Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd ar 16 Awst 2017 gan felin drafod Gorwel yng Nghaerdydd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Medi 2017**